Dylunio Setiau

Wrth i Gwion a Morfran fynd ar eu taith, gwelwn eu stori trwy gyfrwng creadigol iawn. Defnyddion ni setiau bychain wedi eu gwneud o bob math o wrthrychau. Sut allwch chi gyfleu stori fel hyn?

Cam 1: Ail wyliwch rhan yma y ddrama.

Cam 2: Holwch y disgyblion, *pa wrthrychau o'r cartref welon nhw yn ein setiau bychain.* Bydd hi'n syniad gwylio'r clip sawl tro.

Cam 3: Cyfle nawr i'r plant ddylunio eu setiau bychain eu hunain. Yn gyntaf, fe fydd angen stori i'w gyfleu. Cychwynnwch gan ddefnyddio ***Bwrdd Stori*** er mwyn ailadrodd stori Gwion a Morfran yn eu geiriau eu hunain.

Cam 4: Wedi cwblhau'r stori fyrddio, rhowch gyfle i'r plant rannu eu syniadau a'u straeon.

© Cwmni Theatr Taking Flight 2020 gan Alan Thomas-Williams

Fframwaith Llythrennedd

Ailadrodd naratifau neu wybodaeth y maent wedi eu clywed, gan osod y digwyddiadau yn eu trefn gywir.

Camau Cynnydd

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Rwy'n gallu cynhyrchu dyluniadau i fynegi fy syniadau mewn ymateb i gyd-destunau penodol.

Rwy'n gallu ddefnyddio ystod o offer, defnyddiau a chyfarpar yn ddiogel er mwyn adeiladu at amrywiaeth o ddibenion.

Celfyddydau Mynegiannol

Rwy'n gallu perfformio, cynhyrchu, dylunio, arddangos a rhannu fy ngwaith creadigol mewn amrywiaeth o ffyrdd ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol, a hyn wedi'i ysbrydoli gan ystod o sbardunau a phrofiadau.

Wrth barhau â'r dasg, gallwch weithio gydag unigolion neu ddewis y syniadau gorau a gweithio arnynt mewn grwpiau.

Cam 5: Gwyliwch y neges gan ein dylunydd anhygoel o greadigol, Ruth.

Cam 6: *Nawr eich tro chi i gael bod yn ddylunwyr!* Bydd angen pori trwy eu byrddau stori. *Pa gymeriadau fydd angen eu cynrychioli? Oes angen unrhyw setiau? Unrhyw ddodrefn/celfi? Lleoliadau? Coed?*

Cam 7: Wedi llunio rhestr o 8-10 o gymeriadau ac elfennau stori gallant drafod pa wrthrychau o'r dosbarth/cartref y gwnân nhw eu defnyddio i'w cynrychioli.

Defnyddiwch y ***Daflen Gynllunio*** sydd yn y pecyn er mwyn cofnodi eu syniadau.

Cam 8: Treuliwch ddiwrnod creadigol yn creu eich setiau bychain. Mwynhewch y cyfle i gael bod yn greadigol. *Cofiwch, does dim cywir ac anghywir. Mae pob syniad yn werthfawr. Byddwch mor greadigol ag y gallwch fod!*

Cam 9: Nawr beth am wneud y gorau o'u syniadau creadigol. Cynhaliwch sesiynau chwarae rôl gan ddefnyddio'r propiau, neu beth am gynhyrchu ffilmiau gan ddefnyddio *iMovie* neu *Video Maker.* Mwynhewch!

Cam 10: Carwn weld eich ffilmiau, setiau a syniadau, beth am drydaru **@takingflightco**

© Cwmni Theatr Taking Flight 2020 gan Alan Thomas-Williams

Fframwaith Llythrennedd

Ailadrodd naratifau neu wybodaeth y maent wedi eu clywed, gan osod y digwyddiadau yn eu trefn gywir.

Camau Cynnydd

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Rwy'n gallu cynhyrchu dyluniadau i fynegi fy syniadau mewn ymateb i gyd-destunau penodol.

Rwy'n gallu ddefnyddio ystod o offer, defnyddiau a chyfarpar yn ddiogel er mwyn adeiladu at amrywiaeth o ddibenion.

Celfyddydau Mynegiannol

Rwy'n gallu perfformio, cynhyrchu, dylunio, arddangos a rhannu fy ngwaith creadigol mewn amrywiaeth o ffyrdd ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol, a hyn wedi'i ysbrydoli gan ystod o sbardunau a phrofiadau.

_____	_____	_____	_____
_____	_____	_____	_____

© Cwmni Theatr Taking Flight 2020 gan Alan Thomas-Williams

Dylunio Set Bychan

	1. Beth yw e? Dwi am ei greu gan ddefnyddio...
	2. Beth yw e? Dwi am ei greu gan ddefnyddio...
	3. Beth yw e? Dwi am ei greu gan ddefnyddio...
	4. Beth yw e? Dwi am ei greu gan ddefnyddio...

© Cwmni Theatr Taking Flight 2020 gan Alan Thomas-Williams

	5. Beth yw e? Dwi am ei greu gan ddefnyddio...
	6. Beth yw e? Dwi am ei greu gan ddefnyddio...
	7. Beth yw e? Dwi am ei greu gan ddefnyddio...
	8. Beth yw e? Dwi am ei greu gan ddefnyddio...

© Cwmni Theatr Taking Flight 2020 gan Alan Thomas-Williams